

OWEN, Syr ISAMBARD (1850 - 1927), ysgolhaig o feddyg, a saerniwr prifysgolion

Enw: Isambard Owen
Dyddiad geni: 1850
Dyddiad marw: 1927
Priod: Ethel Owen (née Holland-Thomas)
Rhiant: William George Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig o feddyg, a saerniwr prifysgolion
Maes gweithgaredd: Addysg; Meddygaeth; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Thomas Richards

Ganwyd yng Nghasgwent 28 Rhagfyr 1850, i William George Owen, peiriannydd o fri, disgybl i Isambard Brunel, ac un o brif ddyinion y G.W.R. Aeth i ysgolion Caerloyw a Rossall, graddio yng Nghaergrawnt (1872), a throi at astudiadau meddygol yn ysbyty S. George's, Llundain, lle y tyfodd yn awdur ac arbenigwr, yn ddarlithydd, deon, a cheidwad yr amgueddfa, a myned mor bell â chyfleu cynllun i sefydlu prifysgol feddygol newydd yn Llundain fel protest yn erbyn arafwch adweithiol Prifysgol Llundain ar y pryd. Daeth yn gyfaill mawr i [Joseph Edwards](#) y cerflunydd ac i'r [tywysog Lucien Bonaparte](#); enwyd ef fel un o'r ysgutorion yn ewyllys olaf y ddau r enwog. Ymunodd Isambard Owen yn gynnar iawn â bywyd Cymreig y brifddinas; yr oedd ar y blaen gydag ail-ddeffro Cymdeithas y Cymmrodorion yn 1873, ac yn enwedig gyda'r achosion da yr ymddiddorai'r gymdeithas ynddynt, sef cael lle mwy amlwg i'r Gymraeg yn ysgolion Cymru, a rhoddi hwb ymlaen i'r drychfeddwl o gael ysgolion canolradd i'r Dywysogaeth. Rhoddodd dystiolaeth dros Gymru o flaen comisiwn addysg 1886-7, ac ef oedd ysgrifennydd cynhadledd Amwythig (5 a 6 Ionawr 1888) a wnaeth lawer i osod i lawr seiliau safadwy Mesur 1889. Yr oedd yn un o brif ddyinion y 'Society for the Utilisation of the Welsh Language'; dyna sy'n cyfrif am ei edmygedd mawr o [Dan Isaac Davies](#), a'i gyfeillgarwch agos ag ef.

Nid oedd neb amlycach nag Isambard Owen gyda dechreuadau Prifysgol Cymru, fel y prawf amlinell fras cynllun 1891, memorandwm cyflawnach 1892, a'i ran flaenllaw yng nghynadleddau Amwythig (Ionawr a Chwefror 1893), yn y rhai y cytunwyd ar brif bwyntiau siarter y brifysgol (gwnaed llawer o'r gwaith cyfreithiol gan ei frawd Charles Maynard Owen). Pan sefydlwyd y brifysgol yn 1894, gydag [arglwydd Aberdâr](#) yn ganghellor cyntaf, Isambard Owen oedd ei ddirprwy, ac yn gyfrifol am ben trymaf y dyletswyddau; daliodd yn 'Senior Deputy Chancellor' tan 1910. Cofia pawb sy'n cofio'r cyfnod hwn am ei olwg urddasol, ei lais persain treiddgar, a Lladiniaith goeth y geiriau seremonïol. Purion cofio ei wahodd i fod yn brifathro Coleg Caerdydd ar ôl marw [Viriamu Jones](#) a'r ffaith mai ef (yn ôl Syr Harry Reichel) bioedd y syniad o gyfaddasu adeilad mawreddog Coleg Bangor at lethrau creigiog Penrallt, ac nid gwastatáu'r tir i dderbyn yr adeilad. Yn 1904 penodwyd ef yn brifathro Coleg Armstrong, Newcastle-on-Tyne, ac o 1909 i 1921 bu'n is-ganghellor Prifysgol Bryste; y mae iddo le anrhydeddus effeithiol yn hanes y ddau sefydliad. Urddwyd ef yn farchog yn 1902, yn Ll.D. gan Brifysgolion Cymru (1911) a Bryste (1912), ac yn D.C.L. gan Brifysgol Durham (1905). Priododd, 1905, ag Ethel Holland-Thomas, o Gae'r Ffynnon, ger Talsarnau, a chawsant ddwy ferch. Bu farw ym Mharis ar 14 Ionawr 1927, a chladdwyd ef yng Nglanadda, Bangor, ar 2 Chwefror. [Ei enw llawn oedd Herbert Isambard Owen.]

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 5949-6422 (llyfrgell Coleg y Gogledd)

The Welsh Outlook, 1927, 62-6

The Times, 17 Ionawr 1927

British Medical Journal, 1927, 167-8

The Lancet, 22 Ionawr 1927

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Isambard Owen](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [22912691](#)

Wikidata: [Q5735196](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

